



Statws brechu

30 Medi 2021

Cais am wybodaeth.

Diolch ichi am eich cais, a ddaeth i law ar 8 Medi, pan wnaethoch ofyn:

Annwyl Senedd Cymru,

O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, hoffwn wneud cais am y wybodaeth ganlynol:

- 1. Nifer y staff ar y gyflogres, ac a gawsant frechlyn fflw yn 2019 a 2020.*
- 2. Nifer yr aelodau a etholir i'r Senedd, ac a gawsant frechlyn fflw yn 2019 a 2020.*
- 3. Y wybodaeth ar gyfer yr un grwpiau yn 1. a 2. sydd wedi cael un dos a dau ddos o frechlyn COVID-19.*
- 4. A yw'r Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i staff ac aelodau hysbysu'r awdurdodau Seneddol am brofion Covid a manylion y polisi sy'n ei gwneud yn ofynnol bod staff ac aelodau etholedig yn cael profion PCR.*

Gweler ein hymateb isod:

- 1. Nifer y staff ar y gyflogres, ac a gawsant frechlyn fflw yn 2019 a 2020.*

Ar 13 Medi 2021, roedd 458 cyflogai yng Nghomisiwn y Senedd.

Nid oes gennym wybodaeth wedi'i chofnodi yn ymwneud â'ch cais a ofynnodd a yw staff Comisiwn y Senedd wedi cael brechlyn fflw yn 2019, ond gallwn gadarnhau y cafodd 15 o gyflogeion Comisiwn y Senedd ad-daliad am frechlyn fflw yn 2020.

- 2. Nifer yr aelodau a etholir i'r Senedd, ac a gawsant frechlyn fflw yn 2019 a 2020.*

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN

Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Ar 13 Medi 2021, roedd 60 o Aelodau etholedig o'r Senedd. Nid oes gennym wybodaeth wedi'i chofnodi yn ymwneud â'ch cais a ofynnodd a yw Aelodau o'r Senedd wedi cael brechlyn fflw yn 2019 a 2020.

3. *Y wybodaeth ar gyfer yr un grwpiau yn 1. a 2. sydd wedi cael un dos a dau ddos o frechlyn COVID-19.*

Nid oes gennym wybodaeth wedi'i chofnodi mewn perthynas â'ch cais.

4. *A yw'r Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i staff ac aelodau hysbysu'r awdurdodau Seneddol am brofion Covid a manylion y polisi sy'n ei gwneud yn ofynnol bod staff ac aelodau etholedig yn cael profion PCR.*

Fel arfer, nid yw'n ofynnol i staff y Comisiwn ac Aelodau o'r Senedd roi gwybod i Gomisiwn y Senedd pan fyddant yn cael prawf positif am y coronafeirws. Fodd bynnag, os yw unigolyn wedi cael prawf positif cyn pen 72 awr ar ôl mynychu ystâd y Senedd, mae'n ofynnol iddo roi gwybod i'w reolwr neu Bennaeth Gwasanaeth, fel y gellir cymryd camau i leihau'r risg y bydd unigolion eraill yn dod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Nid ydym yn cadw gwybodaeth ynghylch ail ran y cwestiwn, ond gall staff y Comisiwn ac Aelodau o'r Senedd ofyn am gyngor gan y Comisiwn. Darperir y cyngor hwnnw yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru a'r GIG.

Yn gywir,

Buddug Saer

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN